

11 Rhagfyr 2017

Annwyl Gyfaill

Creu'r Diwylliant Cywir: Ymchwiliad i'r Adolygiad o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

Mae Aelodau'r Cynulliad yn cyflawni gwaith democrataidd y Cynulliad; maent yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn gwneud cyfreithiau i Gymru ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. O'r herwydd, rydym yn awyddus i sicrhau bod yr amgylchedd yr ydym yn gweithio ynddo yn gadarnhaol ac yn agored.

Fel senedd, rydym wedi ymrwymo i gael diwylliant sefydliadol cynhwysol, sy'n rhoi grym i bobl ryngweithio â'r broses ddemocrataidd, yn lle enghreifftiol i weithio ac sy'n croesawu miloedd o ymwelwyr i'w hystâd.

Nid oes unrhyw le yn ein sefydliad i ymddygiad amhriodol. Rydym am sicrhau bod pawb yn teimlo y gallant fynegi pryderon ynghylch ymddygiad nad ydynt yn gyfforddus ag ef gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddodd y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac arweinwyr grwpiau **ddatganiad** ynghylch mynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol yn y Cynulliad ar 15 Tachwedd 2017.

Er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni'r disgwyliadau uchel yr ydym yn eu gosod i'n hunain, ac i weithredu'r ymrwymadau yn y datganiad, mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi cytuno i wneud y canlynol:

- Ystyried y gweithdrefnau presennol ynghylch cwynion¹ i sicrhau eu bod yn briodol ac yn glir er mwyn i unigolion deimlo y gallant sôn am unrhyw

¹ Fel y nodir yn y [Cod Ymddygiad i Aelodau'r Cynulliad](#) a'r [Weithdrefn ar gyfer ymdrin â Chwynion am Aelodau'r Cynulliad](#)



bryderon ynghylch ymddygiad amhriodol gyda hyder;

- Datblygu polisi parch ac urddas sy'n nodi nad oes lle i unrhyw ymddygiad amhriodol yn y sefydliad hwn; ac
- Adolygu'r cosbau sydd ar gael i'r Pwyllgor i sicrhau bod unrhyw achosion o ymddygiad amhriodol yn cael eu trin yn briodol.

Gan fod hwn yn broblem a all effeithio ar bob agwedd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, byddwn yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i sicrhau bod yr un safonau'n berthnasol i bawb.

Hoffai'r Pwyllgor glywed eich barn ar y cwestiynau a ganlyn:

- A fydddech yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud cwyn am Aelod Cynulliad neu rywun sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad? Os na, pam?
- A fydddech yn gwybod sut i wneud cwyn am Aelod Cynulliad neu rywun sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad?
- A ydych yn teimlo bod unrhyw beth yn eich rhwystro rhag codi pryderon am ymddygiad amhriodol Aelod Cynulliad neu rywun sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad?
- A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid symleiddio'r weithdrefn gwyno?
 - o A yw'r canllawiau'n glir? A yw'r iaith a ddefnyddir yn syml i'w deall?
 - o A yw'r ddogfen yn eich helpu i ddeall pwy y dylech gysylltu â hwy ynghylch gwahanol fathau o gwynion?
 - o Pe bydddech yn profi ymddygiad amhriodol, a fydddech yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r weithdrefn fel y mae ar hyn o bryd?

Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg. Y bwriad yw cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law, nodwch a fydddech yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.



Dylai cyflwyniadau gynnwys paragraffau wedi'u rhifo, a chanolbwyntio ar y materion a nodir uchod. Gweler y [canllawiau i dystion sy'n darparu tystiolaeth i bwyllgorau](#).

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, dylech anfon copi electronig, (**nid** ar ffurf dogfen PDF, yn ddelfrydol) i SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru

Fel arall, ysgrifennwch at:

Clerc y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Bae Caerdydd
CF99 1NA

Os hoffech i'ch ymateb gael ei drin yn ddiennw neu'n breifat, nodwch yn eich e-bost/llythyr cysylltiedig.

Dylai unrhyw gyflwyniadau ddod i law erbyn **31 Ionawr 2018**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Datgelu gwybodaeth

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld [yma](#). Cofiwch ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (0300 200 6377).

Yn gywir



Jayne Bryant AC
Cadeirydd

